# RHAGLEN BUDDSODDI MEWN ADDYSG
# DOGFEN YMGYNGHORI 2025

## CYNIGION I SEFYDLU DARPARIAETH FEITHRIN YN YSGOL GYMRAEG COED-Y-GOF

**12 MAI 2025 – 1 GORFFENNAF 2025**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn: www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk
neu ar 029 2087 2720 i drefnu hyn

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD

# Tabl Cynnwys


**Cyflwyniad**

- Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?
- Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

**Ymgynghori**

- Barn plant ar y cynnig arfaethedig
- Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?
- Mae eich barn yn bwysig i ni

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon**

**Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?**

- Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024-2033
- Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024-2033 Caerdydd
- Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

**Ysgolion cynradd a dosbarthiadau meithrin sy'n gwasanaethu'r ardal**

- Cyfrwng Cymraeg
- Cyfrwng Saesneg

**Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

**Darpariaeth Feithrin**

**Cadarnhau'r galw lleol am leoedd**

- Lleoedd meithrin sy'n cael eu cymryd
- Lleoedd cynradd sy'n cael eu cymryd

**Sefydlu darpariaeth feithrin arfaethedig yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

**Ansawdd a Safonau**

- Estyn
- Consortiwm Canolbarth y De

**Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol**

- Sgorau Cyflwr ac Addasrwydd

**Sut y byddai'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig yn cael ei lletya**

**Beth yw manteision sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**

**Cymorth ychwanegol i ddisgyblion**

- Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol?
- Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

**Sut fyddai'r newid yn effeithio ar safonau Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof?**

- Safonau dysgu a chynnydd yn gyffredinol
- Lles ac agweddau at ddysgu
- Profiadau dysgu ac addysgu
- Gofal, cymorth ac arweiniad
- Arweinyddiaeth

**Effaith ar ysgolion eraill**

**Effaith ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar**

**Anfanteision posibl y cynigion**

**Risgiau**

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

**Trefniadau Derbyn**

**Materion Adnoddau Dynol**

**Ariannu'r newid arfaethedig**

**Materion Trafnidiaeth**

**Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

**Effaith y cynnig ar y Gymraeg**

**Cydraddoldeb**

**Effaith ar y Gymuned**

**Cwestiynau Cyffredin**

**Y Camau Nesaf**

**Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth**

- Dyddiadau Allweddol
- Cyfnod ymgynghori
- Hysbysiad Statudol
- Penderfynu ar y cynigion
- Hysbysiad o'r penderfyniad

**Mae eich barn yn bwysig i ni**

**Atodiad 1**

# CYFLWYNIAD

## Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.

Mae'n nodi manylion y newidiadau arfaethedig i'r ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg a gynhelir sy'n gwasanaethu Treláі, y Tyllgoed a Phentre-baen, a rhannau o Landaf, Sain Ffagan, Radur a Phentre-poeth.

Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynd i, neu'n disgwyl mynd i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.

Rydym am i bawb ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig, fel y gallwch ddweud eich barn wrthym ar y newidiadau.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn ceisio barn y gymuned ar gynigion i:

- Ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof o 4-11 oed i 3-11 oed drwy sefydlu uned feithrin cyfrwng Cymraeg fel rhan o'r ysgol.

Byddai'r newid arfaethedig yn cael ei roi ar waith o fis Medi 2026.



## Ymgynghori

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn ceisio barn pobl ar y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

**Mae Tabl 1 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:**

| Tabl 1: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni/gofalwyr | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Staff yr ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau) | Undebau Llafur |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Darparwyr gofal plant |
| Awdurdodau Cymdogol | Mudiad Meithrin |
| Pob Ysgol yng Nghaerdydd | Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru |
| Estyn | Clybiau Plant Cymru |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA) Cymru |
| Blynyddoedd Cynnar Cymru | PACEY Cymru |
| Chwarae Cymru | Mentrau Iaith |
| Cynghorau Cymuned | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Y Comisiynydd Plant | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Sefydliadau y Sector Gwirfoddol | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Coleg Dewi Sant | Fforwm Addysg Gymraeg |

### Barn plant ar y cynnig arfaethedig

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i fod yn ddinas sy'n dda i blant lle gall plant lywio penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

Wth gyflwyno cynigion, mae'n bwysig bod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion.

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof mewn ffordd sy'n briodol i'w hoedran, a bydd y wybodaeth sy'n cael ei chasglu yn y sesiwn hon yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol a gaiff ei ystyried gan y Cyngor.

### Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

- Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof

- Os na allwch gael gafael ar y wybodaeth ar-lein, gallwch ofyn am gael copi caled o'r ddogfen ymgynghori hon drwy'r post. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.
- Byddwn yn rhoi gwybod i deuluoedd â phlant ar y gofrestr yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, a'r rhai sydd â phlant o oedran cyn ysgol yn yr ardal leol sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.
- Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio i unrhyw un eu mynychu lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Bydd sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein yn cael eu cynnig.
- Bydd swyddogion y Cyngor yn cwrdd â'r Corff Llywodraethu a staff Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.
- Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod:

**Tabl 2: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori**

| Natur yr Ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Iau 22 Mai 2025<br>1:30y.p. – 3:30y.p. | Hyb Trelái a Chaerau |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Gwener 06 Mehefin 2025<br>10y.b. – 12y.b. | Hyb Tyllgoed |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mercher 18 Mehefin 2025<br>8:45y.b. – 9:45y.b. | Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mercher 25 Mehefin 2025<br>10y.b. – 12y.p. | Hyb Radur |
| Sesiwn galw i mewn ar-lein | Dydd Iau 12 Mehefin 2025<br>10:30y.b. – 12:30y.p. | Microsoft Teams |
| Sesiwn galw i mewn ar-lein | Dydd Iau 19 Mehefin 2025<br>1:30y.p. – 3:30y.p. | Microsoft Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus | Dydd Mawrth 10 Mehefin 2025<br>6y.h. – 7:30y.h. | Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof |

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb. Nid oes angen i chi archebu ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau hyn. Dim ond mynd i'r lleoliad ar y dyddiad a'r amser a bennir

- mynd i sesiwn galw heibio ar-lein. Cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk i gadarnhau pa sesiwn yr hoffech chi fynd iddi a byddwn yn anfon dolen atoch ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i fynd i'r cyfarfod hwn.

- cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof

- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn , a www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog eich ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 01 Gorffennaf 2025.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.



# Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon

**Nifer Derbyn –** mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC). Y nifer derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn rhwng y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6.

**ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) –** Mae gan rai plant anghenion dysgu ychwanegol.  Gallai hyn fod oherwydd anawsterau dysgu, anableddau corfforol neu broblemau ymddygiadol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Cyllid cyfalaf i ysgolion –** arian a ddefnyddir i godi adeiladau ysgol newydd neu wella cyfleusterau sy'n bod eisoes.

**Ystafell ddosbarth –** ystafell o fewn ysgol o faint digonol ar gyfer addysgu.

**Lleoliad dosbarth –** ystafell ddosbarth mewn ysgol a ddefnyddir ar gyfer addysgu a lle mae grŵp o blant wedi'u lleoli fel arfer.

**Ysgol Gymunedol –** ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Dalgylch –** ardal y byddai ysgol gymunedol fel rheol yn ei gwasanaethu.    Yng Nghaerdydd, mae mwy o flaenoriaeth gan blant o fewn yr ardal hon i gael eu derbyn i'r ysgol na phlant y tu allan i'r ardal.

**Dosbarth Mynediad (DM) -** mae Dosbarth Mynediad (DM) yn cyfeirio at ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn rhwng y dosbarth Derbyn a Blwyddyn 6. Felly, mae ysgol 2DM yn ddau ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Mae ysgolion sydd â Dosbarthiadau Mynediad nad ydynt yn rifau cyfan fel arfer yn gweithredu dosbarthiadau oedran cymysg.

**Prydau Ysgol am Ddim (PYADd) –** mae prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd yng Nghymru bellach. Fodd bynnag, mae cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (cPYADd) yn dal i gael ei gofnodi lle bo hynny'n bosibl, gan ei fod yn ffordd o nodi amddifadedd cymdeithasol ac yn cael ei ddefnyddio i bennu dyraniadau cyllid a grantiau ar gyfer ysgolion a theuluoedd. Gall plentyn fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim os yw ei riant yn derbyn mathau penodol o gymorth incwm neu gredydau, neu os yw ei riant yn cael cymorth o dan Ran VI o'r Ddeddf Mewnfudo a Lloches.

**Awdurdod Lleol -** sefydliad sydd yn swyddogol gyfrifol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol.

**Meithrinfa a gynhelir -** meithrinfa sy'n cael ei hariannu a'i chynnal gan yr Awdurdod Lleol.

**Meithrinfa nas gynhelir -** lleoliad meithrin a ariennir yn breifat nad yw'n cael ei gynnal gan yr Awdurdod Lleol e.e. Cylch Meithrin.

**Data Nifer ar y Gofrestr –** nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**CYBLD (Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion).** Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ym mhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Lleoedd dros ben –** lleoedd gwag/heb eu llenwi mewn ysgol.

**Hysbysiad Statudol –** hysbysiad statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol.   Gwneir hyn dim ond os bydd Cabinet y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

**Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir –** ysgol gynradd neu uwchradd sydd fel arfer o natur grefyddol sydd â'i llywodraethiant dan fwyafrif eglwysig a lle mai Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) -** cynllun statudol y mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ei baratoi, gan ddatgan sut y bydd yn gwella cynllunio addysg Gymraeg a gwella safonau mewn addysg Gymraeg, gyda thargedau wedi'u gosod a'u cytuno gan Weinidogion Cymru.

## Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?

### Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024 – 2033

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Cyngor ei ddogfen 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach', sy'n nodi'r themâu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Yn gyson â blaenoriaethau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Caerdydd, datblygwyd Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024–2033 i gryfhau a gwella system addysg Caerdydd, gan gefnogi nodau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach'. Mae'r strategaeth yn darparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer trefnu addysg dros y naw mlynedd nesaf, sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol ac ymrwymiad Caerdydd i addysg deg, uchelgeisiol a chynaliadwy.

Gallwch ddod o hyd i fanylion Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024–2033 yn Strategaeth Buddsoddi Addysg 2024 i 2033

Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i ysgolion gydweithio o fewn system gydlynol, gyda chyllid digonol a phartneriaethau cryf i wella cyfleoedd dysgu. Rhaid i ysgolion gefnogi datblygiad y gweithlu addysg a sicrhau effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl drwy sicrhau'r gwerth gorau, lleihau dyblygu a lleihau'r defnydd o ynni.

Cefnogir Strategaeth Buddsoddi Addysg Caerdydd 2024–2033 gan Addysg Caerdydd: Strategaeth Gydweithredu a Ffedereiddio, sy'n canolbwyntio ar gydweithio rhwng ysgolion a phartneriaid i gyflawni'r nodau addysgol a nodir yng Nghaerdydd 2030.

### Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024-2033 Caerdydd

Mae'r Rhaglen Dreigl Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 2024-2033 yn nodi'r angen am fuddsoddiadau strategol sy'n cyd-fynd â nodau lleol a chenedlaethol i wella deilliannau addysgol.

Mae egwyddorion buddsoddi'r rhaglen yn cynnwys:

(i) Cyd-fynd ag agendâu polisïau addysg lleol a chenedlaethol i wella deilliannau addysg

(ii) Targedu buddsoddiad drwy gynnal a chadw neu adeiladu adeiladau newydd i wella cyflwr yr ystâd.

(iii) Sicrhau lefelau gwarged cynaliadwy.

(iv) Darparu lefel briodol o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

(v) Bodloni gofynion deddfwriaethol.

(vi) Manteisio i'r eithaf ar strategaethau "buddsoddi i arbed" er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar fenthyca.

(vii) Dilyn proses arfarnu opsiynau drylwyr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

Yn 2017 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n nodi'r ymagwedd hirdymor o gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Rhaid i awdurdodau lleol gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), sy'n nodi targed deng mlynedd i gynyddu nifer y dysgwyr Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu yn y Gymraeg.

Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei darged yn unol â'r ystod a roddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol cyffredinol.

Nod Caerdydd, a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, yw i 25 - 29% o ddisgyblion Blwyddyn 1 gael eu haddysgu yn Gymraeg erbyn 2031. Yn 2023/24, roedd 17.6% o ddisgyblion Derbyn mewn addysg Gymraeg. Er mwyn cyrraedd y nod hwn, mae angen cynnydd o 7.4% - 11.4%.

Ar hyn o bryd, mae 18% o leoedd ysgol oedran derbyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Gan fod disgwyl i dderbyniadau i ysgolion ostwng, gallai canran uwch o ddisgyblion gael eu lleoli mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ar gyfer disgyblion sy'n cael eu derbyn yn 2025/26 (tua 3,800 o ddisgyblion), gellid cynnig 24% o leoedd drwy addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n fwy na'r 17.6% presennol.

Ym mis Ionawr 2024, roedd 18.5% o blant meithrin yng Nghaerdydd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg, er bod hyn yn amrywio ar draws y ddinas.

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i'w tharged o 25 - 29%, ond mae'n rhaid ystyried heriau fel cyfraddau geni is ac ansicrwydd mewn tueddiadau derbyn i ysgolion ar ôl y pandemig.

Mae'r Cyngor yn gweithredu cynllun gwaith i fynd i'r afael â phob un o ddeilliannau'r CSCA.

Mae Deilliant 1 y CSCA yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu nifer y plant meithrin/plant tair oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Deilliant 2 y CSCA yn nodi bwriad y Cyngor i gynyddu nifer y plant Dosbarth Derbyn/plant pump oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallwch ddod o hyd i fanylion Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd yn Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Caerdydd

# Ysgolion cynradd a dosbarthiadau meithrin sy'n gwasanaethu'r ardal

## Cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg â dau Ddosbarth Mynediad (DM) yn ardal Pentre-baen yng Nghaerdydd, sy'n gwasanaethu disgyblion 4-11 oed. Mae'r ysgol yn rhannu safle a phrif adeilad gydag Ysgol Gynradd Pentre-baen, sef ysgol gynradd cyfrwng Saesneg 1DM â dosbarth meithrin ac sy'n gwasanaethu disgyblion 3-11 oed.


Mae dalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwasanaethu Trelái, y Tyllgoed a Phentre-baen, a rhannau o Landaf, Sain Ffagan, Radur a Phentre-poeth.

Mae dalgylchoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg Ysgol Gymraeg Nant Caerau, Ysgol Gymraeg Treganna, Ysgol Pencae, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol Gynradd Gwaelod-y-Garth gerllaw dalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.

Gwasanaethir yr ardal hefyd gan Ysgol Gynradd Groes-wen, ysgol gynradd iaith ddeuol, a chan Ganolfan Blant Trelái a Chaerau, sy'n cynnwys dosbarth meithrin Cymraeg.

O'r ysgolion a enwir uchod, nid oes gan Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof nac Ysgol Pencae ddosbarth meithrin ar y safle.

Ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n gwasanaethu'r




## Cyfrwng Saesneg

Mae'r ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg canlynol wedi'u lleoli o fewn ac yn gwasanaethu rhannau o ddalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof:  Ysgol Gynradd Hywel Dda, Ysgol Gynradd Herbert Thompson, Ysgol Gynradd Windsor Clive, Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd Pentre-baen, Ysgol Gynradd Peter Lea, Ysgol Gynradd Radur, Ysgol Gynradd Bryn Deri, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf, Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sain Ffagan, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis.

O'r ysgolion a enwir uchod, nid oes gan Ysgol Gynradd y Tyllgoed, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llandaf nac Ysgol Gynradd Gatholig y Teulu Sanctaidd ddosbarth meithrin.

### Ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal



# Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof

Mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg yn Rhodfa Beechley, Pentre-baen, Caerdydd, CF5 3SG.

Mae'r ysgol yn rhannu safle a rhan o'i hadeiladau gydag Ysgol Gynradd Pentre-baen.

Capasiti ysgol gynradd yw nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp oedran o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, ar gyfer plant rhwng pedair ac un ar ddeg oed. Mae gan lawer o ysgolion leoedd mewn dosbarthiadau meithrin hefyd.

Nifer Derbyn ysgol yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn yr ysgol honno.

Mae capasiti a nifer derbyn ysgol wedi eu seilio ar sut y caiff ystafelloedd dosbarth a gofodau eraill yn yr ysgol eu defnyddio ar gyfer addysgu a dysgu.

**Mae tabl 3 isod yn rhoi manylion am leoedd sydd ar gael yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof**.

| Enw'r Ysgol | Capasiti Cyhoeddedig Presennol (4-11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4-11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng Iaith a Chategori'r Ysgol |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 389 | 60 | 0 | Ysgol gynradd gymunedol Gymraeg |

## Darpariaeth Feithrin

Gall plant yng Nghaerdydd gael lle meithrin rhan amser mewn ysgol o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Rhaid iddynt fynd i'r dosbarth meithrin o leiaf ar bum hanner diwrnod yr wythnos.

Nid oes dalgylchoedd ar gyfer dosbarthiadau meithrin.

Mae dosbarthiadau meithrin yn cynnwys carfan o 'blant sy'n codi'n 4 oed' yn nhymor yr hydref, ac yn derbyn carfan arall o blant ym mis Ionawr (y rhai a gododd yn 3 oed yn nhymor yr hydref) a charfan arall ym mis Ebrill (y rhai a gododd yn 3 oed yn nhymor y gwanwyn).

Mae'r Cyngor yn adolygu data demograffig, y nifer sydd wedi cymryd lle addysg yn ddiweddar a data dewisiadau derbyn i ysgolion lle mae ar gael i lywio nifer y lleoedd meithrin sydd i'w hariannu ym mhob tymor ysgol. Lle mae gan ysgolion arwynebedd llawr mawr ar gyfer meithrinfa, ond nad oes lleoedd wedi'u cymryd, mae'r Cyngor yn cydgrynhoi nifer y lleoedd a ariennir ar lefel sy'n gytbwys yn gyffredinol â'r nifer sy'n cael eu cymryd yn lleol.

Fel arfer, mae lleoedd dosbarth meithrin mewn blociau o 8 lle rhan-amser (4 cyfwerth ag amser llawn) sy'n caniatáu i ysgolion gynllunio cyllidebau a gofynion staffio.

# Cadarnhau'r galw lleol am leoedd

Mae'r Cyngor wedi dadansoddi'r nifer diweddar o leoedd dosbarthiadau meithrin ac ysgolion cynradd yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, yn nalgylch yr ysgol, ac mewn ysgolion a dalgylchoedd cyfagos.

Mae dadansoddiadau ar wahân wedi'u cynnal ar gyfer lleoliadau plant sy'n dechrau addysg gynradd, a'r rhai sy'n cymryd lleoedd dosbarth meithrin.

Mae'r dadansoddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad 1 ar dudalen 34.

## Lleoedd meithrin sy'n cael eu cymryd

Cynhaliwyd nifer o ddadansoddiadau cyfrifiad ysgolion (CYBLD) i ystyried y galw am leoedd dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg gan blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, neu'n agos ati. Canolbwyntiodd y dadansoddiad ar blant meithrin 'sy'n codi'n 4 oed' (y rhai a fyddai'n trosglwyddo i'r dosbarth Derbyn y flwyddyn ganlynol).

Canfu'r dadansoddiad ym mis Ionawr 2024:

- Fod cyfran is o blant yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cymryd lleoedd mewn dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg nag mewn dalgylchoedd cyfagos.
- Bod dros hanner y plant yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof sy'n mynd i feithrinfa cyfrwng Cymraeg yn mynd i Ysgol Gynradd Groes-wen.
- Dosbarth meithrin Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fyddai'r dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg agosaf i 23 o blant 'sy'n codi'n 4 oed' pe bai dosbarth yn cael ei sefydlu yn yr ysgol.
- Roedd 18 o blant 'sy'n codi'n 4 oed' yn byw o fewn milltir i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi cofrestru mewn dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg, gan gyfrif am 18% o ddisgyblion yn yr ardal filltir honno.

## Lleoedd cynradd sy'n cael eu cymryd

Ers blynyddoedd lawer, mae mwy o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi cymryd lleoedd mewn dosbarthiadau Derbyn mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg na Nifer Derbyn Cyhoeddedig yr ysgol o 60 lle. Yn y blynyddoedd diwethaf, pan oedd derbyniadau i ysgolion yn uwch yn gyffredinol, roedd mwy na 80 o ddisgyblion yn byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn dewis mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Fodd bynnag, mae cyfran sylweddol o'r plant hyn wedi cymryd lle mewn ysgolion eraill, gan gynnwys ysgolion sy'n agosach at eu cyfeiriad cartref ac ysgolion sy'n cynnig addysg feithrin. Mae plant sy'n mynychu ysgol sydd â dosbarth meithrin yn aml yn cymryd lle dosbarth Derbyn yn yr un ysgol.

Mae nifer y plant a ddewisodd Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fel eu dewis cyntaf ar gyfer lle yn y dosbarth Derbyn wedi bod yn llai na 30 o ddisgyblion yn y rowndiau derbyn diweddaraf, fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 4: Nifer y plant sy'n dewis Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fel eu dewis cyntaf am le yn y dosbarth Derbyn, erbyn y dyddiad cau**

| Blwyddyn Derbyn | 2023 - 24 | 2024 - 25 | 2025 - 26 |
|---|---|---|---|
| Nifer y dewis cyntaf | 13 | 11 | 18 |

Mae mwy o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cymryd lle derbyn cyfrwng Cymraeg mewn ysgol cyfrwng Cymraeg arall na nifer y plant sy'n cymryd lle yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.

Wrth i nifer y disgyblion sy'n cymryd lleoedd mewn ysgolion cynradd ostwng ledled y ddinas, mae mwy o blant yn gallu cael mynediad at ysgolion eraill yn agosach at eu cartref. O ganlyniad, mae nifer y derbyniadau i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi gostwng. O ystyried nifer y lleoedd ysgol gynradd a gymerwyd yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ddiweddar, un opsiwn fyddai crynhoi'r ysgol ar gapasiti llai i gael gwared ar leoedd dros ben. Fodd bynnag, ni fyddai gostyngiad parhaol mewn capasiti yn ategu ymrwymiad y Cyngor i dyfu addysg feithrin a chynradd cyfrwng Cymraeg.

Canfu dadansoddiad o blant sy'n cymryd lle dosbarth Derbyn yn y tair rownd ddiwethaf o dderbyniadau:

- Fod dros hanner y disgyblion a nododd ddosbarth Derbyn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fel eu dewis cyntaf wedi'u cofrestru mewn dosbarthiadau meithrin yn Ysgol Gynradd Pentre-baen neu Ganolfan Blant Trelái a Chaerau.

- Roedd deg disgybl a nododd Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fel eu dewis cyntaf wedi'u cofrestru mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg arall, roedd tri disgybl mewn darpariaeth cyfrwng Saesneg, ac nid oedd chwe disgybl arall yn mynychu dosbarth addysg feithrin.

## Sefydlu darpariaeth feithrin arfaethedig yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof

Mae'r bwriad i sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn unol â pholisi'r Cyngor o ddarparu lle rhan amser i blant o fewn radiws o 2 filltir i gartref plentyn.

Cynhwyswyd dadansoddiad o leoliadau dosbarthiadau meithrin yn yr adran flaenorol, Sefydlu galw lleol am leoedd (tudalen 14).

Mae'r data'n dangos bod nifer o blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi cofrestru mewn ysgol gyfrwng Cymraeg arall, er y gellid ei hystyried eu hysgol leol.

Er y gallai rhai teuluoedd ddewis ysgol arall o hyd, mae'n rhesymol dod i'r casgliad bod digon o boblogaeth yn lleol i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof i gefnogi sefydlu dosbarth meithrin. Byddai hyn yn ei dro yn helpu i gynnal yr ysgol a chefnogi twf yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd mae Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwasanaethu plant 4-11 oed yn unig ac felly nid yw'n derbyn unrhyw gyllid ar gyfer dosbarth meithrin. Mae teuluoedd sy'n lleol i'r ysgol, neu'n byw yn nalgylch yr ysgol, sydd am i'w plant fynychu darpariaeth feithrin a gynhelir, yn manteisio ar leoedd mewn amrywiaeth eang o leoliadau ysgol feithrin eraill.

Yn flaenorol, roedd teuluoedd oedd yn byw yn agos at Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gymwys i gael mynediad at addysg feithrin yn Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen, darparwr nas cynhelir sy'n rhannu safle'r ysgol. Fodd bynnag, ar ôl sefydlu Ysgol Gynradd Groes-wen, mae lleoedd meithrin a gynhelir bellach ar gael o fewn 2 filltir i'w cyfeiriad cartref. Felly, nid yw'r teuluoedd hyn yn gymwys i gael lle addysg a ariennir yng Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen mwyach.

Byddai sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol a byddai'n cyd-fynd â chanlyniadau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd.

Mae darpariaeth Dechrau'n Deg eisoes ar y safle yng Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfagos ac yn denu ystod ehangach o deuluoedd i'r ysgol, gan gefnogi'r ysgol i fod yn fwy cynaliadwy.

Felly byddai'n rhesymol sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof i ddatblygu parhad a dilyniant mewn addysg plant o 3 oed.

Dangosodd data carfan 'plant sy'n codi'n 4 oed' ar gyfer mis Ionawr 2024 fod 18 o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn byw o fewn 1 filltir i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof. Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof oedd y ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg agosaf i 23 o blant.

Gan fod cyfraddau geni a phoblogaethau disgyblion yn gymharol sefydlog ar hyn o bryd, rhagwelir lefel debyg o alw yn y blynyddoedd i ddod. Wrth gyfrif am y grŵp oedran 'plant sy'n codi'n 3 oed' sy'n gymwys ar gyfer lleoedd yn nhymor y gwanwyn a'r haf, y galw lleol am leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg yw tua 28 - 36 o blant.

Gan fod lleoedd dosbarth meithrin yng Nghaerdydd yn cael eu hariannu fel arfer mewn lluosrifau o 8 lle, cynigir y byddai'r dosbarth meithrin yn gweithredu i ddechrau ar 24 o leoedd rhan-amser, ond gyda digon o gapasiti i ehangu.

Byddai'r Cyngor yn parhau i adolygu dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd.

Tra bod niferoedd derbyn i ysgolion ar lefel sefydlog neu'n lleihau, mae'n anochel y byddai sefydlu dosbarth meithrin newydd yn effeithio ar nifer y disgyblion sy'n cymryd lle mewn ysgolion eraill. Mae nifer y lleoedd a gynigir yn seiliedig ar y patrwm hanesyddol o ddarpariaeth a'r lleoedd sy'n cael eu cymryd yn yr ardal.

Bydd hyn yn sicrhau bod nifer y lleoedd sydd eu hangen yn cyfateb i'r galw heb effeithio ar hyfywedd y ddarpariaeth bresennol.

Byddai darparu 24 o leoedd rhan-amser yn caniatáu i'r Cyngor asesu'r galw am leoedd yn y dosbarthiadau meithrin priodol a chydbwyso lleoedd yn unol â hynny. Byddai hyn yn sicrhau bod digon o leoedd ar gyfer yr ardal yn gyffredinol.

Byddai'r Cyngor yn cydgrynhoi nifer y lleoedd a ddarperir mewn dosbarthiadau meithrin eraill yn 2026/27, gan gydbwyso'r ddarpariaeth bresennol yn ôl y nifer cyfatebol o leoedd. Byddai hyn yn lleihau nifer y lleoedd meithrin heb eu llenwi sy'n cael eu hariannu mewn ysgolion lleol eraill er mwyn sicrhau nad oes gwariant refeniw ychwanegol yn deillio o ariannu'r lleoedd meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.

Pe na fyddai angen mwy o leoedd meithrin, byddai'r cynigion hefyd yn rhoi'r opsiwn i ddefnyddio'r gofod i ddarparu gweithgareddau cymunedol pe bai Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn dymuno gwneud hynny.

## Ansawdd a Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda dau sefydliad er mwyn monitro perfformiad ysgolion ac i gefnogi gwelliant mewn ysgolion.

Mae Estyn yn archwilio ansawdd a safonau ysgolion a darparwyr addysg eraill Cymru.

Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) yw'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella Ysgolion ar gyfer pum cyngor Pen-y-Bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

## Estyn

Caiff ysgolion eu harolygu gan Estyn fel rhan o raglen genedlaethol o arolygon ysgol. Diben arolwg yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion.

Barnodd arolwg Estyn ym mis Mai 2018 fod lles ac agweddau at ddysgu, gofal, cymorth ac arweiniad yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn dda, a barnwyd bod safonau, addysgu a phrofiadau dysgu ac arwain a rheoli yn ddigonol ac angen eu gwella.

Yn dilyn ymweliad dilynol gan Estyn ym mis Rhagfyr 2019, barnwyd bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd digonol wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o arolwg mis Mai 2018. Cafodd yr ysgol ei thynnu oddi ar y rhestr o ysgolion oedd angen adolygiad Estyn. Nid oedd unrhyw weithgareddau monitro pellach mewn perthynas â'r arolygiad.

## Consortiwm Canolbarth y De

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof:

- Arweinir yr ysgol gan bennaeth ymroddedig ac effeithiol gyda gweledigaeth strategol glir. Caiff ei chefnogi gan ddirprwy da sy'n rhannu'r weledigaeth.
- Mae'r ysgol wedi wynebu cyfnod heriol iawn yn ddiweddar gyda diswyddiadau gorfodol. Arweiniodd y pennaeth y staff drwy'r broses yn hynod broffesiynol.
- Mae'r strwythur arweinyddiaeth yn sicrhau bod cyfrifoldebau yn glir a bod staff yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau arwain. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel o'r holl ddisgyblion.
- Mae'r pennaeth yn angerddol am ddatblygu'r ysgol fel ysgol gymunedol er mwyn codi proffil a statws yr ysgol yn y gymuned leol.
- Mae prosesau pwrpasol ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso safonau a darpariaeth. Mae calendr o weithgareddau hunanwerthuso drwy gydol y flwyddyn sy'n cael eu rhannu gyda staff ac mae'r broses gyfan wedi cryfhau dan arweiniad y pennaeth, maent yn fwy cyson, trylwyr ac effeithiol a defnyddir y canlyniadau i lunio'r blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.
- Mae ansawdd y dysgu a'r addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol yn dda. Ymdrinnir ag unrhyw anghysondebau, ac mae'r dirprwy bennaeth yn rhoi cefnogaeth i aelodau unigol o staff pan fo angen. Mae atebolrwydd ar bob lefel yn gwella.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu strategaethau i hyrwyddo llythrennedd ac o ganlyniad mae dysgwyr yn fwy hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang ac mae'r sgiliau'n dechrau gwreiddio ym mhob rhan o'r cwricwlwm.
- Mae'r ardaloedd allanol yn datblygu'n dda gyda ffocws ar amgylchedd dysgu sy'n hyrwyddo dysgwyr annibynnol.
- Mae'r ysgol yn darparu ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol i staff sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.
- Mae'r pennaeth yn cefnogi gwaith y clwstwr ac yn blaenoriaethu sesiynau i ddatblygu cwricwlwm y clwstwr trwy gydweithio.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cwricwlwm sy'n gynhwysol ac mae gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio i hyrwyddo tegwch er mwyn sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed, yn cael mynediad at bob profiad lle bo hynny'n briodol.
- Mae systemau effeithiol yn cael eu gweithredu i fonitro cynnydd dysgwyr sy'n agored i niwed ac mae'r rhan fwyaf yn gwneud y cynnydd disgwyliedig wrth i ymyriadau pwrpasol ac effeithiol gael eu darparu. Mae presenoldeb yn parhau i fod yn ffocws strategol, yn enwedig disgyblion PYADd.

## Cyflwr ac Addasrwydd Adeiladau Ysgol

Caiff pob ysgol yng Nghaerdydd sgôr Cyflwr o A (perfformio yn ôl y bwriad / gweithredu'n effeithlon) i Ch (oes wedi dirwyn i ben / wynebu risg uniongyrchol o fethu).

Caiff ysgolion yng Nghaerdydd hefyd sgôr Addasrwydd o A (da – cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles) i Ch (gwael – adeiladau'n llesteirio'n ddifrifol ar allu staff i weithredu'r cwricwlwm).

**Tabl 5: Sgorau cyflwr ac addasrwydd**

| Sgôr | Math o Ysgol | Addasrwydd |
|---|---|---|
| A | Da ac yn gweithredu'n effeithlon | Da iawn. Cyfleusterau'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a lles yn yr ysgol |
| B | Boddhaol ond rhai pethau wedi dirywio. | Boddhaol. Perfformio yn ôl y bwriad ond nid yw'n cynorthwyo gweithredu'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd. |
| C | Gwael, gyda diffygion mawr. | Gwael. Amharu ar ddulliau addysgu/effaith wael ar drefn yr ysgol |
| D | Diwedd oes: cyfnod wedi dirwyn i ben neu risg ddybryd o fethu. | Gwael iawn. Adeiladau'n amharu'n ddifrifol ar allu'r staff i weithredu'r cwricwlwm. |

Ystyrir bod adeiladau Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof mewn cyflwr boddhaol ar y cyfan er bod angen sylw ar rai rhannau.

Sgôr cyflwr cyffredinol yr ysgol yn ôl asesiad ym mis Ebrill 2020 oedd C+ o ran cyflwr a B o ran addasrwydd.

## Sut y byddai'r ddarpariaeth feithrin arfaethedig yn cael ei lletya

Byddai'r dosbarth meithrin yn cael ei sefydlu o fewn adeiladau presennol, ac felly ychydig iawn o addasiadau ac adnoddau fydd eu hangen i ymestyn yr ystod oedran.

Mae uned symudol ddwbl mewn ardal ddiogel i gynnal y Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 ac mae cyfleusterau addas gan gynnwys ardaloedd a rennir a mynedfa allanol ac allanfeydd i ollwng a chasglu disgyblion a allai ddarparu ar gyfer darpariaeth feithrin yn yr ysgol.

## Beth yw manteision sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof?

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn cynnig dull cyson o addysgu a chynllunio ac yn cyfrannu at godi safonau trwy'r ysgol.

Byddai disgwyl i'r manteision canlynol ddeillio o sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol:

- Lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg ychwanegol i wasanaethu teuluoedd lleol;
- Dileu'r angen i deithio i wahanol safleoedd ar gyfer brodyr a chwiorydd o oedran cynradd a meithrin, gan effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau logistaidd y gallai ceisio darparwr gofal plant arall eu hachosi;
- Parhad o ran y ddarpariaeth i gefnogi ac ymgorffori ethos a diwylliant yr ysgol;
- Helpu i feithrin cysylltiadau cryf ac effeithiol â rhieni o'r cyfle cyntaf posibl;
- Hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus);

- Nodi grwpiau sy'n agored i niwed ac sydd ag anghenion dysgu yn gynt;
- Drwy gael uned blynyddoedd cynnar yn yr ysgol, byddai mantais o ran lles a dysgu disgyblion;
- Byddai parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei sicrhau, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol.

## Cymorth ychwanegol i ddisgyblion

Mae Tabl 6 isod yn dangos canrannau:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

**Tabl 6: Canran y disgyblion yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, y gwyddys eu bod yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim, sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol ac a adnabuwyd fel disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig**

| Ysgol | % y disgyblion â datganiad ADY | % y disgyblion â CDU | % y disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim - cyfartaledd 3 blynedd | % y disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol | % y disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | * | 8.2% | 37.8% | - | 13.4% |
| Cyfartaledd Caerdydd | 0.6% | 4.5% | 29% | 18.9% | 39.3% |
| Cyfartaledd Cymru | 1.0% | 3.7% | 22.9% | 7.1% | 13.3% |

Ffynhonnell: Fy Ysgol Leol YSGOL GYMRAEG COED Y GOF (2024)

### Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Mae gan blentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio a'i warchod yn briodol i fodloni eu hanghenion, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses.

Mae peth o'r arian a gaiff ysgol wedi ei seilio ar anghenion dysgu'r disgyblion sydd ynddi. Mae hyn yn helpu'r ysgol i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion sydd ag anghenion ychwanegol.

Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth i ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn ôl yr angen.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynnig yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol eu cynorthwyo.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys am Brydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol y gwyddys eu bod yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae data poblogaeth disgyblion yn cadarnhau bod 39.1% (CYBLD 2024) o ddisgyblion Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, o gymharu â 12.9% ar gyfer ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ar lefel y ddinas gyfan.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion y gwyddys eu bod yn gymwys i dderbyn Prydau Ysgol am Ddim.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n dysgu Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Nid oes unrhyw ddisgybl sy'n mynychu Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi'i gofnodi fel disgybl sy'n newydd i'r Saesneg.

Gellir cynorthwyo disgyblion sydd angen y cymorth hwn mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol yn cael eu cynorthwyo.

Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.



### Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

Mae cyfanswm o 10 ethnigrwydd gwahanol wedi'u cofnodi yn yr ysgol gyda 85.8% (CYBLD 2024) o'r disgyblion wedi'u cofnodi fel Gwyn Prydeinig.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

## Sut fyddai'r newid yn effeithio ar safonau Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof?

### Safonau dysgu a chynnydd yn gyffredinol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.

Byddai sefydlu uned feithrin yn yr ysgol yn cefnogi lles a dysgu disgyblion.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen ei addysgu nac ar unrhyw gyfnod allweddol arall yn yr ysgol.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i feithrin lles a thwf academaidd disgyblion. Mae'r ysgol yn credu bod amgylchedd ysgol cadarnhaol yn hanfodol i feithrin angerdd am ddysgu a sicrhau bod pob plentyn yn ffynnu.

Mae lles yn gonglfaen i athroniaeth yr ysgol. Mae'r ysgol wedi creu awyrgylch cefnogol lle mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Mae'r staff ymroddedig wedi'u hyfforddi i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol dysgwyr, gan hyrwyddo gwydnwch ac iechyd meddwl cadarnhaol.

Mae'r ysgol yn cynnig mentrau amrywiol, megis dosbarth anogaeth, gweithgareddau ymwybyddiaeth ofalgar, dull gweithredu ysgol gyfan at les, therapi chwarae, therapi cerdd, cymorth Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol (CCLlE) ac ymarfer corff rheolaidd, i helpu plant i ddatblygu arferion iach a deallusrwydd emosiynol.

Mae agweddau at ddysgu yr un mor bwysig ac mae'r ysgol yn anelu at ysbrydoli chwilfrydedd ac angerdd gydol oes am wybodaeth.

Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cwricwlwm sy'n gynhwysol ac mae gweithgareddau dysgu wedi'u cynllunio i hyrwyddo tegwch er mwyn sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr sy'n agored i niwed, yn cael mynediad at bob profiad lle bo hynny'n briodol ac yn cynnwys mewnbwn yr holl randdeiliaid mewn ffordd ystyrlon. Mae disgyblion yn cael mewnbwn i'r llinell ymchwilio sy'n cael ei hastudio ac mae rhieni yn cael eu croesawu i'r ysgol i rannu a dathlu dysgu eu plant.

Trwy flaenoriaethu lles a meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, mae'r ysgol yn ymdrechu i greu cymuned fywiog lle gall pob plentyn ragori yn academaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac eang sy'n cadw at egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru, gan ganiatáu i ddisgyblion ddod yn ddysgwyr iach, galluog a all gyfrannu'n llawn yn y gymuned.

Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i ennyn diddordeb ac i fod yn gynhwysol, gan ddarparu ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu a galluoedd ac yn dilyn dull dysgu sy'n seiliedig ar ymchwilio. Mae'r dull hwn yn meithrin chwilfrydedd, sgiliau datrys problemau, gwydnwch ac annibyniaeth y disgybl. Mae mynediad uniongyrchol at ysgol goedwig a thiroedd ysgol helaeth sy'n ffurfio elfen hanfodol o'r cynnig cwricwlwm, gan annog disgyblion i archwilio a datrys problemau mewn lleoliadau naturiol, gan fagu hyder a'r gallu i addasu. Mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio i sicrhau bod y cysyniadau mwyaf diddorol a chyfredol yn cael eu cynnwys a'u hystyried. Mae hyn yn sbarduno chwilfrydedd am y byd, gan hyrwyddo dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o'u hamgylchedd.

Mae'r pennaeth yn cefnogi gwaith y clwstwr ac yn blaenoriaethu sesiynau i ddatblygu cwricwlwm y clwstwr trwy gydweithio.

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn caniatáu parhad y ddarpariaeth i gefnogi ac ymgorffori ethos a diwylliant yr ysgol.

Byddai cyflwyno'r Gymraeg yn 3 oed yn gwella datblygiad llythrennedd a rhifedd disgyblion.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan yr ysgol ystod addas o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae tîm arwain r ysgol wedi ymrwymo i feithrin cymuned ysgol lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a lle mae disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda thîm arwain yr ysgol i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad.

## Arweinyddiaeth

Arweinir yr ysgol gan bennaeth ymroddedig ac effeithiol sydd â gweledigaeth strategol glir a chaiff ei gefnogi gan ddirprwy bennaeth da sy'n rhannu'r weledigaeth.

Mae prosesau pwrpasol ar waith ar gyfer monitro a gwerthuso safonau a darpariaeth. Mae ansawdd dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol yn gyffredinol yn dda ac ymdrinnir ag unrhyw anghysondebau ac mae'r dirprwy bennaeth yn cefnogi aelodau staff unigol pan fo angen.

Mae atebolrwydd ar bob lefel yn gwella.

Mae ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol yn cael eu darparu i staff, sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau cynllun gwella'r ysgol.

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda thîm arwain yr ysgol i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gynnal perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newid arfaethedig yn cael ei gynllunio'n ofalus fel na therfir ar brosesau arwain a llywodraethu'r ysgol, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol.

## Effaith ar ysgolion eraill

Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.

Disgwylir y byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn helpu i gynyddu nifer y disgyblion sy'n manteisio ar leoedd ysgol gynradd yn yr ysgol.

Gan nad oes cynnydd rhagamcanol yn y niferoedd sy'n cael eu derbyn i addysg gynradd yn ystod y tair blynedd nesaf, disgwylir y byddai sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn lleihau nifer y derbyniadau i ysgolion eraill yn y sector cyfrwng Saesneg a'r sector cyfrwng Cymraeg.

Mae Tablau 7 ac 8 isod yn nodi sut y gallai nifer y disgyblion a gofrestrir mewn ysgolion lleol, Blwyddyn Dderbyn i Flwyddyn 6, gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

Y ffigyrau ar gyfer 2019/20 i 2023/24 yw'r nifer diweddar o ddisgyblion a oedd wedi cofrestru. Y ffigyrau ar gyfer 2024/25 i 2028/29 yw'r nifer o ddisgyblion a ragwelir fydd yn cofrestru.

**Tabl 7: Nifer y disgyblion a gofrestrir mewn ysgolion lleol pe na bai'r cynigion yn cael eu gweithredu**

| Ysgol | Nifer diweddar o ddisgyblion ar y gofrestr | | | | | Nifer rhagolygol o ddisgyblion ar y gofrestr | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 309 | 278 | 268 | 248 | 212 | 187 | 174 | 152 | 139 | 124 |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 191 | 184 | 179 | 168 | 162 | 153 | 141 | 135 | 135 | 135 |
| Ysgol Gynradd Groes-wen | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 17 | 54 | 107 | 160 | 213 | 266 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 203 | 197 | 195 | 198 | 192 | 196 | 197 | 198 | 201 | 201 |
| Ysgol Pencae | 208 | 205 | 202 | 206 | 198 | 207 | 206 | 206 | 206 | 206 |

*Mae amcanestyniadau NAG (Nifer ar y Gofrestr) ysgol yn seiliedig ar faint poblogaethau dalgylch ysgolion priodol, ac allosodiad patrymau pontio hanesyddol rhwng blynyddoedd ysgol.

Pe bai dosbarth meithrin yn cael ei sefydlu yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, mae'r dadansoddiadau yn dangos y gall yr effaith fwyaf ar dderbyniadau meithrin fod yng Nghanolfan Blant Trelái a Chaerau, Ysgol Gynradd Pentre-baen ac Ysgol Gynradd Groes-wen.

Ar ben hynny, roedd nifer o'r dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion eraill yn llawn o ran derbyn 'plant sy'n codi'n 3 oed' ar gam diweddarach, gan gynnwys Ysgol Gymraeg Treganna ac Ysgol Glan Ceubal. Gall sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof leihau nifer y derbyniadau i rai ysgolion, ond byddai felly'n cefnogi twf yn y dyfodol yn nifer y dysgwyr sy'n gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, yn yr ardal sy'n lleol i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof a hefyd yn yr ardaloedd a wasanaethir gan yr ysgolion hyn.

Gan mai ychydig iawn o deuluoedd sy'n trosglwyddo i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg arall ar ôl cofrestru mewn dosbarth meithrin ysgol, mae'n bosibl iawn y gallai nifer y plant sydd angen lle Derbyn ostwng ym mhob un o'r ysgolion uchod, felly.

Gan nad oes gan Ysgol Pencae, sy'n gwasanaethu dalgylch sy'n ffinio â dalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, ddosbarth meithrin, mae plant sy'n cofrestru yn nosbarth Derbyn yr ysgol honno'n trosglwyddo o nifer o feithrinfeydd lleol eraill. Mae nifer y disgyblion sy'n cymryd lle yn Ysgol Pencae wedi aros ar lefelau uchel hyd yn oed wrth i nifer y derbyniadau ostwng ar draws y ddinas gyfan, ac ni ragwelir y byddai effaith ar niferoedd derbyn Ysgol Pencae.

Tabl 8: Nifer y disgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion lleol pe bai'r cynigion **yn cael eu gweithredu o fis Medi 2026**

Y ffigyrau ar gyfer 2019/20 i 2023/24 yw'r nifer diweddar o ddisgyblion ar y gofrestr. Y ffigyrau ar gyfer 2024/25 i 2028/29 yw nifer rhagolygol y disgyblion ar y gofrestr.

| **Tabl 8:** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer diweddar o ddisgyblion ar y gofrestr | | | | | Nifer rhagolygol o ddisgyblion ar y gofrestr | | | | |
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 309 | 278 | 268 | 248 | 212 | 187 | 174 | 152 | 159 | 168 |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 191 | 184 | 179 | 168 | 162 | 153 | 141 | 135 | 130 | 125 |
| Ysgol Gynradd Groes-wen | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 14 | 54 | 107 | 160 | 203 | 246 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 203 | 197 | 195 | 198 | 192 | 196 | 197 | 198 | 201 | 201 |
| Ysgol Pencae | 208 | 205 | 202 | 206 | 198 | 207 | 206 | 206 | 206 | 206 |

Mae Tablau 9 a 10 isod yn nodi sut y gall nifer y disgyblion a gofrestrir mewn dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion lleol gael eu heffeithio gan y newidiadau arfaethedig.

| **Tabl 9:** Nifer y disgyblion dosbarth meithrin 'Codi'n 4' a gofrestrir mewn ysgolion lleol **pe na bai'r cynigion** yn cael eu gweithredu | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer diweddar o ddisgyblion ar y gofrestr - disgyblion 'Codi'n 4' | | | | | Nifer o ddisgyblion a ragwelir fydd ar y gofrestr - disgyblion 'Codi'n 4' | | | | |
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B |
| Canolfan Blant Treláí a Chaerau | 64 | 55 | 85 | 57 | 59 | 52 | 66 | 66 | 66 | 66 |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 30 | 34 | 26 | 41 | 28 | 27 | 36 | 36 | 36 | 36 |
| Ysgol Gynradd Groes-Wen | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 28 | 45 | 56 | 64 | 64 | 64 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 24 | 43 | 26 | 36 | 35 | 23 | 27 | 25 | 25 | 25 |

| **Tabl 10:** Nifer y disgyblion dosbarth meithrin 'Codi'n 4' a gofrestrir mewn ysgolion lleol **pe byddai'r cynigion** yn cael eu gweithredu | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol | Nifer diweddar o ddisgyblion a gofrestrwyd - disgyblion 'Codi'n 4' | | | | | Nifer y disgyblion a ragwelir fydd ar y gofrestr - disgyblion 'Codi'n 4' | | | | |
| | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 12 | 20 | 24 |
| Canolfan Blant Treláí a Chaerau | 64 | 55 | 85 | 57 | 59 | 52 | 66 | 63 | 61 | 60 |
| Ysgol Gynradd Pentre-baen | 30 | 34 | 26 | 41 | 28 | 27 | 36 | 33 | 27 | 30 |
| Ysgol Gynradd Groes-Wen | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 28 | 45 | 56 | 58 | 54 | 52 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 24 | 43 | 26 | 36 | 35 | 23 | 27 | 25 | 25 | 25 |

Rhagwelir na fyddai unrhyw effaith uniongyrchol ar nifer y lleoedd dosbarthiadau meithrin a lenwir mewn ysgolion eraill.

## Effaith ar ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar

Mae Gofal Plant Cwtch Pentrebaen, ar y safle a rennir gydag Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, yn darparu gofal plant cofleidiol a gofal plant clwb gwyliau i ddysgwyr oed meithrin ac oedran ysgol gynradd yn ogystal â darparu lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr 2-3 oed.

Rhagwelir y byddai sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn golygu bod llai o blant yn teithio allan o'r ardal i gael mynediad at ddarpariaeth addysg feithrin a gofal plant cofleidiol cysylltiedig.

Felly, rhagwelir y byddai'r cynigion yn cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar ddarparwyr gofal plant cofleidiol lleol, fel Gofal Plant Cwtch Pentrebaen, i ateb y galw gan deuluoedd lleol.

Gallai'r cynigion arwain at lai o blant o'r ardal sy'n lleol i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cymryd lle mewn addysg feithrin cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion mewn ardaloedd cyfagos, a all, yn ei dro, leihau'r nifer sy'n manteisio ar ofal plant cofleidiol sy'n gwasanaethu'r ysgolion hynny. Gan y gall rhai o'r lleoedd hyn gael eu hôl-lenwi ag ymgeiswyr eraill, nid yw'n bosibl nodi lleoliadau gofal plant a allai gael eu heffeithio'n negyddol gydag unrhyw lefel o sicrwydd.

## Anfanteision posibl y cynigion

- Mae effaith bosibl ar nifer y lleoedd sydd yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. Fodd bynnag, disgwylir i hyn fod yn fyrdymor gan fod nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cael ei dargedu i dyfu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- Mae yna botensial ar gyfer cynnydd bach mewn nifer y cerbydau yn yr ysgol er mwyn codi a gollwng plant. Mae safle cyfunol yr ysgol wedi dioddef problemau yn flaenorol o ran tagfeydd wrth y fynedfa ochr ar Lime Grove lle mae Stryd Ysgol wedi'i sefydlu erbyn hyn. Amseroedd y cyfyngiadau Stryd Ysgol ar hyn o bryd yw 8.30 i 9.30am a 2.30 i 3.30pm i weddu i'r oriau ysgol presennol ac atal rhieni rhag codi a gollwng eu plant ar y ffordd hon. Byddai angen nodi amseroedd y sesiynau meithrin arfaethedig ac asesu a fyddai angen newid oriau'r cyfyngiadau Stryd Ysgol. Byddai angen rhybudd ymlaen llaw o unrhyw newidiadau yn yr amseroedd i weithredu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

## Risgiau

- Mae perygl na fydd cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dymuno cymryd lleoedd Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei amcanestyniadau a byddai'n ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen.

## Opsiynau eraill a ystyriwyd

Opsiynau amgen i sefydlu darpariaeth feithrinfa cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof:

- Gwneud dim
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin cyfrwng Cymraeg yn y darpariaethau presennol.

Fodd bynnag, byddai sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol a byddai'n cyd-fynd â chanlyniadau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd.

Mae darpariaeth Dechrau'n Deg eisoes ar y safle yng Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfagos ac yn denu ystod ehangach o deuluoedd i'r ysgol, gan gefnogi'r ysgol i fod yn fwy cynaliadwy.

## Trefniadau Derbyn

Nid oes unrhyw gynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar dderbyn plant i'r ysgol yn sgil y cynigion hyn.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi hawl uniongyrchol i'r plentyn hwnnw gael lle mewn dosbarth derbyn yn yr un ysgol.

Mae gwybodaeth fanwl am y trefniadau derbyn wedi ei chynnwys yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor, ac mae'r wybodaeth hon i'w gweld hefyd ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk

## Materion Adnoddau Dynol

Byddai'r cynnig i sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu wrth baratoi ar gyfer y newid.

Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu am y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol pe bai angen.

Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu os yw canlyniad y cynigion i sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn effeithio ar y gofynion staffio.

## Ariannu'r newid arfaethedig

Bydd y ddarpariaeth feithrin newydd yn defnyddio mannau presennol a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen. Mae angen ychydig iawn o gyllid ychwanegol i gynnal unrhyw uwchraddiadau angenrheidiol i'r cyfleusterau hyn.

Byddai adnoddau ychwanegol ar gyfer plant sy'n cofrestru yn y dosbarth meithrin yn cael eu hariannu gan Gorff Llywodraethu'r ysgol.

Ni ddisgwylir i sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof effeithio ar y cyllid cyffredinol ledled y ddinas ar gyfer lleoedd meithrin. Defnyddir data dewisiadau rhieni a dadansoddiad CYBLD ar hyn o bryd, a bydd yn parhau i gael ei ddefnyddio, i sefydlu'r nifer priodol o leoedd meithrin a ariennir ym mhob darpariaeth.

Pe rhoddir y cynnig ar waith i sefydlu dosbarth meithrin sy'n cynnig 24 o leoedd rhan-amser i gychwyn, byddai'r Cyngor yn lleihau nifer y lleoedd meithrin heb eu llenwi sy'n cael eu hariannu mewn ysgolion lleol eraill gan 24 o leoedd rhan-amser.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu'r galw am leoedd ac os bydd angen lleoedd meithrin ar nifer fwy o blant, gan adlewyrchu cynnydd yn y boblogaeth, efallai y bydd angen newidiadau pellach i ailalinio'r ddarpariaeth.

## Materion Trafnidiaeth

Yn gyffredinol, mae ymestyn ystod oedran ysgol i gynnwys dosbarth meithrin yn cefnogi teuluoedd i wneud llai o deithiau i leoliadau ar wahân ar gyfer addysg feithrin ac addysg gynradd.  Felly, dylai dosbarthiad gwell o leoedd dosbarth meithrin ym mhob cyfrwng iaith ostwng nifer y teithiau net a nifer y teithiau sy'n llygru a wneir gan deuluoedd.

Byddai disgwyl i ddarpariaeth dosbarth meithrin â 24 o leoedd rhan amser ar gyfer dalgylch cymharol fawr gynyddu rhywfaint nifer y cerbydau yn yr ysgol ar adeg casglu a gollwng plant.  Efallai y bydd rhai disgyblion meithrin yn rhannu cerbyd gyda brodyr a chwiorydd sydd eisoes yn yr ysgol gynradd.

Gallai'r ddarpariaeth feithrin ddylanwadu ar ddewis rhieni i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac aros ar y safle hwn yn hytrach na throsglwyddo i ysgol arall. Byddai hyn yn cynyddu ymhellach y niferoedd sy'n teithio i'r safle, ond gall hefyd leihau nifer y plant sy'n teithio i ddosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg eraill gan adlewyrchu'r pellter o Bentre-baen i ddosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg eraill.

Mae safle cyfunol yr ysgol wedi dioddef problemau yn flaenorol o ran tagfeydd wrth y fynedfa ochr ar Lime Grove lle mae Stryd Ysgol wedi'i sefydlu erbyn hyn.  Amseroedd y cyfyngiadau Stryd Ysgol ar hyn o bryd yw 8.30 i 9.30am a 2.30 i 3.30pm i weddu i'r oriau ysgol presennol ac atal rhieni rhag codi a gollwng eu plant ar y ffordd hon. Byddai angen nodi amseroedd y sesiynau meithrin arfaethedig ac asesu a fyddai angen newid oriau'r cyfyngiadau Stryd Ysgol. Byddai angen rhybudd ymlaen llaw o unrhyw newidiadau i'r amseroedd i weithredu Gorchymyn Rheoleiddio Traffig.

Ni ddisgwylir yr angen am gyfyngiadau traffig eraill ar gyfer parcio a llwytho na mesurau diogelwch ar y ffyrdd i ategu'r groesfan sebra bresennol, ond bydd y sefyllfa'n cael ei monitro a'i hasesu.

## Trefniadau Teithio i Ddysgwyr

Nid oes cynlluniau i newid polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol.

Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/trafnidiaethiysgolion

## Effaith y cynnig ar y Gymraeg

Disgwylir y byddai'r cynnig yn effeithio'n gadarnhaol ar y Gymraeg.

Byddai sefydlu dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol ac yn cyd-fynd â chanlyniadau, nodau a dyheadau Strategaeth 5 mlynedd Caerdydd Ddwyieithog a CSCA 10 mlynedd Cyngor Caerdydd.

Byddai'r cynnig yn cynyddu dewis rhieni yn yr ardal ac yn cefnogi'r ddarpariaeth gynyddol o addysg cyfrwng Cymraeg.

Byddai'n gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i deuluoedd lleol ac yn opsiwn mwy deniadol i rieni yn yr ardal drwy leihau amser a chostau teithio, potensial ar gyfer gwell gwasanaethau cofleidiol i rieni sy'n gweithio, a byddai'n gweithio i wreiddio'r ysgol yn y gymuned leol.

Mae darpariaeth Dechrau'n Deg eisoes wedi'i sefydlu ar y safle yng Ngofal Plant Cwtch Pentrebaen.

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwneud addysg Gymraeg yn fwy hygyrch i'r gymuned gyfagos ac yn denu ystod ehangach o deuluoedd i'r ysgol, gan gefnogi'r ysgol i ddod yn fwy cynaliadwy.

Byddai'r cynigion hefyd yn rhoi'r opsiwn i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ystyried a yw'n dymuno cynnig darpariaeth gofal plant cofleidiol o'r safle ar y cyd â phartneriaid eraill neu ddefnyddio'r gofod i ddarparu gweithgareddau cymunedol pe na bai angen mwy o leoedd meithrin.

Cynigir y byddai'r dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg yn cynnal 24 o leoedd rhan amser i ddechrau, ond gyda digon o gapasiti i ehangu.

Mae'r ysgol yn rhan o brosiect peilot, sy'n fenter ar y cyd rhwng Caerdydd Ddwyieithog a'r tîm CSCA i gefnogi ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd â nifer llai o ddisgyblion yn manteisio ar le yn eu dosbarth Derbyn. Nod y prosiect yw hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn y gymuned drwy ddiwrnodau agored, digwyddiadau cymunedol, taflenni hyrwyddo ac ati i wneud rhieni yn ymwybodol o'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n derbyn lleoedd yn yr uned feithrin cyfrwng Cymraeg yn cael eu hadolygu a bydd nifer y lleoedd yn cynyddu yn ôl yr angen.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg cychwynnol wedi'i gynnal a gallwch ei weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.



# Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar wasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EAG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i gynnal a gallwch ei weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

# Effaith ar y Gymuned

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y cynnig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, tir parc, y modd y defnyddir cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siŵr bod y cynnig yn osgoi effaith negyddol os yw hynny'n bosibl.

Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymunedol. Ni chredir y byddai effaith negyddol ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn o ganlyniad i'r cynnig.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cychwynnol wedi'i gynnal a gallwch ei weld yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynnig yn ei flaen.

# Cwestiynau Cyffredin

## Beth yw Addysg Gymraeg?

Mae yna nod syml iawn i addysg Gymraeg – galluogi plant i ddod yn gwbl rugl yn y Gymraeg a'r Saesneg tra'n derbyn addysg yn y pynciau eraill i gyd ar draws y cwricwlwm.

Mae plant ifanc yn dysgu ieithoedd yn rhyfeddol o hawdd.  Trwy wneud y gorau o'r potensial hwn y daeth addysg Gymraeg mor boblogaidd.

## Pam mae pobl yn dewis addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae ymchwil yn dangos mai dyma'r ffordd orau o bell ffordd sydd gennym o wneud plant yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae nifer o fanteision i ddwyieithrwydd. Mae'n ddefnyddiol iawn fel sgil yn y gweithle. Mae siarad Cymraeg naill ai yn sgil hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu Cymru ddwyieithog yn unol â'i strategaeth 'Cymraeg 2050' sydd a gweledigaeth o gael miliwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae mwy o alw heddiw nag erioed o'r blaen am sgiliau dwyieithog mewn amrywiaeth o feysydd megis iechyd, addysg, hamdden, gofal plant, manwerthu a gwasanaethau cyhoeddus.

## Dydyn ni ddim yn siarad Cymraeg gartref – fydd fy mhlentyn yn sefyll allan?

Ddim o gwbl. Dydy dros 70% o'r plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yng Nghaerdydd ddim yn siarad Cymraeg gartref. Ac i rai o'r rheiny, iaith arall heblaw am Saesneg yw prif iaith y cartref.

Mae cofrestru o gefndir di-Gymraeg yn gwbl normal ac mae'r meysydd dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru wedi'u cynllunio gyda hynny mewn golwg.

Nid yw ysgolion cyfrwng Cymraeg yn disgwyl i'r plant siarad Cymraeg wrth ddechrau yn yr ysgol, ond caiff y plant hynny help i ddod yn rhugl cyn diwedd y flwyddyn gyntaf.

## Yw safonau Saesneg yn is mewn addysg cyfrwng Cymraeg?

Mae disgwyl i blant sy'n gadael ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gyrraedd yn union yr un safonau Saesneg â'r rhai sydd mewn ysgolion cynradd Saesneg. Ac mewn ysgolion uwchradd, mae'r plant yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg yn sefyll yn union yr un arholiadau TGAU a Safon Uwch â'u cyfoedion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

## Sut gallaf i helpu fy mhlentyn gyda'i waith cartref os nad ydw i'n siarad Cymraeg?

Gan nad yw'r rhan fwyaf o blant yn siarad Cymraeg gartref, mae'r ysgolion Cymraeg yn brofiadol iawn wrth gynorthwyo disgyblion a rheini.

Rhoddir cyfarwyddiadau ysgrifenedig ar gyfer y gwaith cartref yn Gymraeg a Saesneg i'r disgyblion iau.

Ar oed hŷn, bydd y plant eu hunain yn gallu egluro eu gwaith wrth eu rhieni. Mewn gwirionedd, mae canlyniadau gwaith ymchwil yn dangos bod trin eu gwaith mewn dwy iaith yn helpu'r plant i ddeall y pwnc maen nhw'n ei astudio.

Mae'r wefan addysg, Hwb, hefyd yn cynnig ystod o adnoddau dysgu ac adnoddau digidol sydd ar gael yn genedlaethol www.hwb.cymru.gov.uk

## Beth fyddai'r cynnig yn ei olygu i blant sy'n mynd i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ar hyn o bryd?

Byddai plant sy'n mynd i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ar hyn o bryd yn aros yn yr ysgol. Byddai angen rhai newidiadau i'r llety presennol er mwyn darparu cyfleusterau priodol ar gyfer y ddarpariaeth feithrin arfaethedig, ond byddai'r ysgol yn parhau i allu darparu'r cwricwlwm llawn.

## Pryd fyddai'r ddarpariaeth feithrin yn agor?

Os cytunir ar y cynnig, cynigir y byddai plant yn cael eu derbyn i'r feithrin o fis Medi 2026. Fodd bynnag, mae hyn yn ddarostyngedig i'r prosesau statudol angenrheidiol.

## Beth yw polisi Cyngor Caerdydd ar dderbyniadau i leoedd meithrin?

Mae gan blant yr hawl i gael lle meithrin rhan-amser o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Nid yw lleoedd meithrin yn cael eu dyrannu ar sail dalgylch. Lle bynnag y bo modd, cynigir lleoedd mewn ysgol feithrin gymunedol leol neu ddosbarth meithrin o fewn dwy filltir o gartref plentyn. Os nad oes lleoedd ar gael mewn ysgolion meithrin cymunedol lleol neu ddosbarthiadau meithrin yn y cyfrwng iaith y gwneir cais amdano, gall rhieni wneud cais am gyllid ar gyfer lle addysg feithrin gyda darparwr cymeradwy.

Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi hawl awtomatig i blentyn i le dosbarth derbyn yn yr un ysgol, ac felly rhaid gwneud cais newydd am leoedd dosbarth derbyn.

## A fyddai'n rhaid i blant meithrin wisgo gwisg ysgol?

Corff Llywodraethu'r ysgol sy'n gwneud penderfyniadau ynghylch gwisg ysgol.

## A fyddai gofal cofleidiol ar gael?

Mae Gofal Plant Cwtch Pentrebaen, ar y safle a rennir gydag Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, yn darparu gofal plant cofleidiol a gofal plant clwb gwyliau i ddysgwyr oed meithrin ac oedran ysgol gynradd yn ogystal â darparu lleoedd Dechrau'n Deg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr 2-3 oed.

## A fyddai'r sesiynau meithrin yn y bore neu'r prynhawn?

Nid yw amseroedd y sesiynau meithrin wedi'u cadarnhau, ond yr amser a ffefrir yw 9am – 11.30am.

## Ga' i ddysgu Cymraeg gyda fy mhlentyn?

Mae rhai rhieni yn penderfynu dysgu Cymraeg hefyd ar ôl dewis ysgol Gymraeg i'w plentyn.

Mae'n gyfle gwych i ddysgu gyda'ch gilydd, ymarfer sgiliau iaith gyda'ch gilydd a threulio amser gwerthfawr gyda'ch gilydd. Mae cyrsiau Cymraeg i oedolion ar gael ledled Caerdydd, ac maent yn addas i ddysgwyr o bob gallu.

Am ragor o wybodaeth, ewch i www.dysgucymraeg.cymru

# Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

## Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd yr adroddiad ymgynghori ar gael i unrhyw un ei weld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir bod unrhyw un o'r cynigion yn mynd yn ei flaen, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 11 isod:

(Gallai'r amserlen hon newid)

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | 12 Mai 2025 - 1 Gorff 2025 |
| Adroddiad ymgynghori i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor | Medi 2025 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Medi/Hydref 2025 |
| Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Hydref/Tachwedd 2025 |
| Penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor | Ionawr 2026 |
| Cyhoeddi'r adroddiad ar wrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet | Ionawr 2026 |

## Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 12 Mai 2025 ac yn dod i ben ar 01 Gorffennaf 2025.

Gweler tudalen 6 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar ei wefan.  Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

**Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.**

Bydd yr adroddiad yn trafod y materion a godwyd gan bobl yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor i'r materion hyn.  Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newid a gynigir i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof.  Os yw'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r newid, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'.  Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor roi'r gymeradwyaeth i gyhoeddi hysbysiad statudol.  Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet.  Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad statudol hwn ar ei wefan.  Byddai copïau o'r hysbysiad hefyd yn cael eu rhoi ym mhrif fynedfa'r ysgol/safle y mae'r hysbysiad yn effeithio arno, neu gerllaw iddi.

Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost).

Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Byddai Cabinet Cyngor Caerdydd yn penderfynu ar y cynnig i sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid yn mynd rhagddo. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Mae gan yr Awdurdod Lleol 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i benderfynu ar y cynnig.

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ar y cynnig, byddai partïon â diddordeb yn cael gwybod am y penderfyniad. Caiff penderfyniadau eu cyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen hon.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynd i gyfarfod cyhoeddus neu sesiwn galw heibio wyneb yn wyneb. Nid oes angen i chi archebu ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau hyn. Dim ond mynd i'r lleoliad ar y dyddiad a'r amser a bennir (gweler y manylion ar dudalen 6).
- mynd i sesiwn galw heibio ar-lein. Cysylltwch â ni drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk i gadarnhau pa sesiwn yr hoffech chi fynd iddi a byddwn yn anfon dolen atoch ynghyd â chyfarwyddiadau ar sut i fynd i'r cyfarfod hwn (gweler y manylion ar dudalen 6).
- llenwi'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgolcoedygof
- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn www.cardiff.gov.uk/ysgolcoedygofproposals, a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Dîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 463, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog eich ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau i ymateb i'r ymgynghoriad hwn yw 01 Gorffennaf 2025.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.




# Atodiad 1

# Lleoedd cynradd a meithrin cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cymryd

## Cadarnhau'r galw lleol am leoedd

Er mwyn cyfrifo'r galw tebygol am leoedd mewn ysgolion, defnyddiwyd tueddiadau hanesyddol sy'n benodol i ddalgylchoedd ysgolion sefydledig.

Yr unedau daearyddol sydd fwyaf addas i ddadansoddi'r galw am leoedd meithrin a chynradd cyfrwng Cymraeg yw dalgylchoedd ar wahân Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, Ysgol Gymraeg Nant Caerau, Ysgol Pencae ac Ysgol Gymraeg Treganna.

Mae dalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn cynnwys Trelái, y Tyllgoed a Phentre-baen, a rhannau o Landaf, Sain Ffagan, Radur a Phentre-poeth. Gan fod y dalgylch yn ymestyn y tu hwnt i ddwy filltir o safle'r ysgol, mae rhai dysgwyr oedran cynradd yn nalgylch yr ysgol felly yn cael eu cefnogi gan y Cyngor i deithio i'r ysgol drwy gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol

## Lleoedd cynradd sy'n cael eu cymryd (4-11 oed)

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer sy'n cymryd lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn Ne-orllewin Caerdydd.

**Tabl 1: Nifer ar y Gofrestr a chyfanswm y lleoedd dros ben – Derbyn i Blwyddyn 6 cyfrwng Cymraeg (CYBLD Ionawr 2024)**

| Ysgol Gynradd | Derbyn | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Cyfanswm (NAG) | Capasiti Cyhoeddedig | Dros ben | % Lleoedd dros ben |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 18 | 29 | 34 | 29 | 38 | 25 | 39 | 212 | 389 | 177 | 46% |
| Ysgol Gynradd Groeswen Primary School | 14 | 2 | 2 | - | - | - | - | 18 | 60 | 42 | 70% |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 30 | 29 | 29 | 26 | 28 | 26 | 24 | 192 | 207 | 15 | 7% |
| Ysgol Pencae | 28 | 29 | 30 | 30 | 29 | 30 | 22 | 198 | 186 | -12 | -6% |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 86 | 85 | 82 | 81 | 75 | 81 | 84 | 574 | 630 | 56 | 9% |
| **Cyfanswm** | **176** | **174** | **177** | **166** | **170** | **162** | **169** | **1194** | **1472** | **278** | **18.9%** |
| **Cyfanswm lleoedd (NDC)** | **240** | **225** | **225** | **210** | **210** | **210** | **210** | | | | |
| **Lleoedd gwag fesul grŵp blwyddyn** | **64** | **51** | **48** | **44** | **30** | **48** | **41** | | | | |
| **% Lleoedd gwag fesul grŵp blwyddyn** | **27%** | **23%** | **21%** | **21%** | **14%** | **23%** | **20%** | | | | |

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Groes-wen yn 2023/2024 i wasanaethu camau cychwynnol datblygiad tai Plasdŵr o hyd at 7,000 o gartrefi. Roedd y trefniadau fesul cam yn caniatáu i ddisgyblion gael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 ym mlwyddyn gyntaf yr ysgol, gan ostwng y Nifer Derbyn Cyhoeddedig ym Mlynyddoedd 1 a 2.

Mae Tabl 2 isod yn nodi nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylch yr ysgol uchod sydd wedi cymryd lleoedd cyfrwng Cymraeg yn ddiweddar a'r nifer a ragamcenir.

Ers blynyddoedd lawer, mae nifer y plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof sy'n cymryd lleoedd cyfrwng Cymraeg adeg mynediad i'r dosbarth Derbyn wedi rhagori ar nifer derbyn cyhoeddedig yr ysgol, sef 60 o leoedd. Mae dadansoddiad o ddata cyfrifiad yr ysgol yn cadarnhau bod cyfran sylweddol o'r plant sy'n byw yn ei dalgylch wedi cymryd lleoedd mewn ysgolion eraill gan gynnwys ysgolion sy'n agosach at eu cyfeiriad cartref ac ysgolion sy'n cynnig addysg feithrin.

Mae'r nifer sy'n cymryd lle yn Ysgol Pencae ac Ysgol Gymraeg Nant Caerau, yn nhabl 1, yn cyd-fynd yn fras â nifer y plant yn nalgylch pob ysgol sy'n cymryd lle mewn unrhyw ysgol gynradd Gymraeg, yn nhabl 2.

Mae'r nifer sy'n cymryd lle yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn sylweddol is na nifer y plant yn ei dalgylch sy'n cymryd lle mewn unrhyw ysgol gynradd Gymraeg. I'r gwrthwyneb, mae'r nifer sy'n cymryd lle yn Ysgol Gymraeg Treganna yn sylweddol uwch na nifer y plant yn ei dalgylch sy'n cymryd lle mewn unrhyw ysgol gynradd Gymraeg.

**Tabl 2: Lleoedd derbyn sydd wedi'u cymryd yn ddiweddar, a'r rhai a ragamcenir, mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg gan ddisgyblion sy'n byw yn y dalgylchoedd (CYBLD Ionawr 2024)**

| Dalgylch | Lleoedd | Data CYBLD | | | | | Y galw a ragwelir, gan adlewyrchu data'r boblogaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 60 | 80 | 64 | 72 | 70 | 63 | 68 | 68 | 69 | 63 | 67 |
| Ysgol Gynradd Groes-wen | 30 (from 2023/24) | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 30 | 34 | 15 | 30 | 25 | 23 | 25 | 21 | 24 | 21 | 22 |
| Ysgol Pencae | 30 | 26 | 29 | 21 | 26 | 31 | 30 | 30 | 27 | 27 | 28 |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 90 | 52 | 66 | 49 | 64 | 52 | 64 | 67 | 59 | 52 | 59 |
| **Cyfanswm** | **210/240** | **192** | **174** | **172** | **185** | **169** | **186** | **186** | **179** | **163** | **176** |
| **Lleoedd Dros Ben** | **-** | **18** | **36** | **38** | **25** | **71** | **54** | **54** | **61** | **77** | **64** |
| **% Lleoedd dros ben** | **-** | **9%** | **21%** | **22%** | **14%** | **42%** | **29%** | **29%** | **34%** | **47%** | **36%** |

Mae Tabl 3 yn cadarnhau bod cyfran sylweddol o'r plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi cymryd lle mewn ysgolion eraill gan gynnwys ysgolion sy'n agosach at eu cyfeiriad cartref. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y plant yn yr ardal sy'n cymryd lle mewn unrhyw ddarpariaeth Gymraeg. Mae pob un o'r ysgolion hyn, ac eithrio Ysgol Pencae, yn cynnig addysg feithrin.

| **Tabl 3: 455 o ddisgyblion oed cynradd sy'n byw yn nalgylch Ysgol Coed-y-Gof sydd ar gofrestr Ysgol Gymraeg neu Ysgol Iaith Ddeuol (CYBLD Ionawr 2024)** | | |
|---|---|---|
| Enw'r ysgol cyfrwng Cymraeg/ iaith ddeuol | Nifer y disgyblion mewn ysgol cyfrwng Cymraeg/iaith ddeuol | % y 455 o'r disgyblion sydd mewn ysgol cyfrwng Cymraeg/iaith ddeuol |
| Ysgol Gymraeg Coed-Y-Gof | 188 | 41% |
| Ysgol Gynradd Groes-wen | 10 | 2% |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 48 | 11% |
| Ysgol Pencae | 27 | 6% |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 64 | 14% |
| Other Welsh-medium schools | **118** | **26%** |
| **Cyfanswm y disgyblion** | **455** | |

Wrth i nifer y disgyblion sy'n cofrestru mewn addysg gynradd ostwng, mae gallu plant i gael eu derbyn i ysgolion eraill a ffefrir wedi cynyddu. Mae'r patrwm hwn yn cyd-fynd â'r gostyngiad yn nifer y disgyblion sy'n cymryd lle yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ers 2019/20, pan gofrestrwyd 49 o ddisgyblion yn y dosbarth Derbyn.

Er nad yw cofrestru mewn dosbarth meithrin yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer derbyn i addysg gynradd, mae data derbyn i ysgolion a data cyfrifiad ysgolion yn cadarnhau mai ychydig o deuluoedd sy'n dewis trosglwyddo i ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar ôl cofrestru mewn dosbarth meithrin.

## Data dewisiadau Derbyn i Ysgolion – derbyn i'r dosbarth Derbyn

Mae dadansoddiad o ddata derbyn i ysgolion ar gyfer y disgyblion hynny sy'n nodi dosbarth Derbyn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof fel eu dewis cyntaf yn y tri chyfnod derbyn diwethaf (2023, 2024 a 2025) yn dangos bod plant yn trosglwyddo o'r dosbarthiadau meithrin canlynol:

- Roedd 15 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yng Nghanolfan Blant Treláі a Chaerau
- Roedd 8 disgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Pentre-baen
- Roedd 3 disgybl wedi'u cofrestru mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg eraill
- Roedd 6 disgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Gymraeg Nant Caerau
- Roedd 2 ddisgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Groes-wen

- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Glan Ceubal
- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru mewn meithrinfa cyfrwng Cymraeg nas cynhelir
- Nid oedd 6 disgybl wedi'u cofrestru mewn unrhyw ddarpariaeth feithrin.

## Cymryd lleoedd meithrin (3-4 oed)

Cynhaliwyd nifer o ddadansoddiadau cyfrifiad ysgolion (CYBLD) i ystyried y galw am leoedd dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg gan blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, neu'n agos ati.

Mae nifer y lleoedd a ddarperir gan ddosbarth meithrin yn adlewyrchu nifer y tymhorau y mae disgyblion yn gymwys i gael lle.

Mae pob plentyn yn gymwys am o leiaf tri thymor ysgol (carfan 'plant sy'n codi'n 4 oed'. Mae plant a anwyd yn nhymor yr Hydref neu dymor y Gwanwyn yn gymwys i gael eu derbyn y tymor canlynol, ac felly maent yn gymwys i fynychu'r dosbarth meithrin am bum tymor neu bedwar tymor yn y drefn honno.

Mae Tabl 4 yn cadarnhau nifer y disgyblion yn y ddau ddosbarth oed meithrin ('Plant sy'n codi'n 3 oed' a 'Phlant sy'n codi'n 4 oed') sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof ac yn mynychu dosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg neu ddosbarth meithrin iaith ddeuol.

**Tabl 4: Ysgol feithrin gofrestredig disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof (CYBLD Ionawr 2024)**

| Enw'r ysgol feithrin | Nifer y disgyblion |
|---|---|
| Canolfan Blant Trelái a Chaerau (Ffrwd Gymraeg) | 5* |
| Ysgol Glan Ceubal | 4 |
| Ysgol Gynradd Groes-wen | 25 |
| Ysgol Gynradd Gwaelod Y Garth | 4 |
| Ysgol Gymraeg Hamadryad | 2 |
| Ysgol Gymraeg Nant Caerau | 7 |
| Ysgol Gymraeg Pwll Coch | 4 |
| Ysgol Gymraeg Treganna | 9 |
| Ysgol Y Berllan Deg | 1 |
| **Cyfanswm** | **61** |

*Cyfrwng iaith fel y'i cofnodwyd mewn cofnod dewisiadau derbyn; nid yw'r iaith addysg wedi'i chofnodi ar CYBLD

Er bod dalgylch ysgolion cynradd Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yn gwasanaethu ardal ddaearyddol eang, nid yw preswylio o fewn dalgylch ysgol yn berthnasol i'r trefniadau derbyn ar gyfer dosbarthiadau meithrin. Mae blaenoriaeth o fewn y trefniadau derbyn ar gyfer dosbarthiadau meithrin yn seiliedig ar oedran ac ar agosrwydd cyfeiriad y cartref at y dosbarth meithrin perthnasol.

Mae dadansoddiad pellach ar agosrwydd cartrefi wedi'i gynnal ar y garfan o 'blant sy'n codi'n 4 oed' ym mis Ionawr 2024 h.y. y rhai o oedran meithrin a fyddai'n symud i ddosbarth Derbyn y mis Medi canlynol.

## Dadansoddiad ysgol agosaf

Mae dadansoddiad Cyfrifiad Ysgolion o blant oed meithrin 'sy'n codi'n 4 oed' sydd wedi'u cofrestru mewn unrhyw ddosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg, y byddai Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yr ysgol agosaf atynt, yn nodi:

- Roedd 13 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Groes-wen
- Roedd 3 disgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Glan Ceubal
- Roedd 2 ddisgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Gymraeg Treganna
- Roedd 2 ddisgybl wedi'u cofrestru yng Nghanolfan Blant Trelái a Chaerau
- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Pwll Coch
- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Nant Caerau
- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol y Berllan Deg.

Roedd cyfanswm o 23 o blant 'sy'n codi'n 4 oed' wedi cofrestru mewn unrhyw ddosbarth meithrin cyfrwng Cymraeg, y byddai Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof yr ysgol agosaf atynt.

## Dadansoddiad pellter cerdded milltir o hyd

Mae dadansoddiad Cyfrifiad Ysgolion o blant oed meithrin 'sy'n codi'n 4 oed' sy'n byw o fewn milltir o Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, sydd wedi cofrestru mewn unrhyw ddosbarth meithrin yn nodi:

- Roedd 31 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Peter Lea
- Roedd 27 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Pentre-baen
- Roedd 24 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg neu ddosbarthiadau meithrin eraill
- Roedd 10 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn Ysgol Gynradd Groes-wen
- Roedd 3 disgybl wedi'u cofrestru yn Ysgol Glan Ceubal
- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Treganna
- Roedd 1 disgybl wedi'i gofrestru yn Ysgol Gymraeg Nant Caerau
- Roedd 3 disgybl wedi'u cofrestru mewn darpariaeth Gymraeg arall

Ar y cyfan, roedd 18 o blant 'sy'n codi'n 4 oed' yn byw o fewn milltir i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof wedi cofrestru mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg, gan gyfrif am 18% o ddisgyblion yn yr ardal honno.

## Crynodeb o’r galw ‘lleol’ am leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg

Mae’r dadansoddiadau uchod o leoliadau dosbarth meithrin yn dangos bod nifer o blant wedi cofrestru mewn ysgol Gymraeg ac eithrio Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, er y gellid ei hystyried eu hysgol leol.

Er y gallai rhai o’r rhain fod wedi dewis ysgol arall o hyd, mae’n rhesymol dod i’r casgliad bod digon o boblogaeth yn lleol i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof i gefnogi sefydlu dosbarth meithrin. Byddai hyn yn ei dro yn helpu i gynnal yr ysgol a chefnogi twf yn y dyfodol.

Ar ben hynny, roedd nifer o’r dosbarthiadau meithrin mewn ysgolion eraill yn llawn o ran derbyn ‘plant sy’n codi’n 3 oed’ ar gam diweddarach, gan gynnwys Ysgol Gymraeg Treganna ac Ysgol Glan Ceubal. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhai plant sy’n agos iawn at yr ysgolion hynny yn gallu cael eu derbyn i’r dosbarthiadau meithrin yn yr ysgolion hynny. Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof felly’n cefnogi twf yn y dyfodol yn nifer y dysgwyr sy’n gallu cael mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg, yn yr ardal sy’n lleol i Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof a hefyd yn yr ardaloedd a wasanaethir gan yr ysgolion hyn.

Byddai disgwyl i sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof leihau nifer y derbyniadau i ysgolion eraill o fewn y sector cyfrwng Saesneg a’r sector cyfrwng Cymraeg. Pe bai dosbarth meithrin yn cael ei sefydlu yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof, mae’r dadansoddiadau uchod yn dangos y gall yr effaith fwyaf ar dderbyniadau meithrin fod ar Ganolfan Blant Trelái a Chaerau, Ysgol Gynradd Pentre-baen ac Ysgol Gynradd Groes-wen.

Y disgwyl yw y bydd lleoedd mewn ysgolion yn Ysgol Gynradd Groes-wen yn cael eu cymryd yn bennaf gan ddisgyblion o ddatblygiad Plasdŵr wrth i’r gwaith o adeiladu’r safle fynd yn ei flaen.

Felly, byddai’n rhesymol sefydlu dosbarth meithrin yn Ysgol Gymraeg Coed-y-Gof gan gynnig 24 o leoedd rhan-amser i ddechrau, ond gyda digon o gapasiti i ehangu, a pharhau i adolygu dewisiadau rhieni a’r nifer sy’n manteisio ar leoedd.

